# Canllaw ar Lwyfannau Rhannu Fideos

Ymgynghoriad ar ganllaw ar gyfer darparwyr ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhan deunydd niweidiol

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mawrth 2021
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 2 Mehefin 2021

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

Defnyddir llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn helaeth gan amrywiaeth eang o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU, gyda 97% o boblogaeth ar-lein y DU yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwefannau hyn yn boblogaidd ar draws pob grŵp oedran, cefndir economaidd-gymdeithasol ac ethnigrwydd. Fodd bynnag, yn ystod y tri mis diwethaf mae un o bob saith o ddefnyddwyr VSP wedi cael profiadau a allai fod yn niweidiol, ac eto mae llawer o ddefnyddwyr (60%) yn parhau heb fod yn ymwybodol o ffyrdd i gadw'n ddiogel ar y llwyfannau hyn.

Mae Ofcom wedi cael pwerau newydd i reoleiddio VSPs a sefydlir yn y DU. Mae rheoleiddio VSP yn ceisio diogelu defnyddwyr gwasanaethau VSP rhag mathau penodol o ddeunydd niweidiol mewn fideos. Mae hyn yn cynnwys diogelu pobl dan 18 oed rhag deunydd a allai fod yn niweidiol a phob defnyddiwr rhag deunydd sy'n annog trais neu gasineb, a chynnwys sy'n gyfystyr â throseddau sy'n ymwneud â therfysgaeth; deunydd cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia. Hefyd, mae'n ofynnol i VSPs sicrhau bod safonau penodol yn ymwneud â hysbysebu yn cael eu bodloni.

Mae'r fframwaith statudol yn nodi rhestr o fesurau y mae'n rhaid i ddarparwyr ystyried eu cymryd, fel y bo'n briodol, i sicrhau'r diogeliadau gofynnol. Daeth y gofynion newydd hyn i rym ar 1 Tachwedd 2020.

### Mae Ofcom yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar gyfer llwyfannau rhannu fideos

Mae Ofcom yn ymgynghori ar ganllawiau drafft i ddarparwyr VSP ar y gofynion rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys y mesurau a ddisgrifir yn y fframwaith statudol a allai fod yn briodol i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, a sut y gellir gweithredu'r rhain. Ymysg pethau eraill, mae'n cynnwys:

- Meddu ar, a gorfodi, telerau ac amodau ar gyfer deunydd niweidiol
- Meddu ar fecanweithiau fflagio ac adrodd a'u gweithredu'n effeithiol
- Cymhwyso mesurau gwirio oedran priodol i ddiogelu pobl ifanc dan 18 oed, gan gynnwys dilysu oedran ar gyfer pornograffi

Mae ein dogfen ymgynghori'n nodi gwybodaeth ychwanegol am y canllawiau drafft, gan gynnwys y dystiolaeth rydym wedi dibynnu arni i gefnogi'r canllawiau. Mae hyn yn cynnwys ymatebion i'n Galwad am Dystiolaeth, yn ogystal ag ymchwil a gynhelir ac a gomisiynir gan Ofcom. Rydym hefyd yn nodi ein hasesiad o effaith debygol ein cynigion.

Mae'r arweiniad drafft llawn ar gael ac mae wedi cael ei ddylunio i'w ddarllen ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

### Ymagwedd Ofcom at reoleiddio

Mae'r fframwaith statudol yn golygu, am y tro cyntaf, y bydd VSPs a sefydlir yn y DU sy'n galluogi defnyddwyr i uwchlwytho a rhannu fideos gydag aelodau o'r cyhoedd yn destun rheoleiddio. Gan fod rheoleiddio VSP yn newydd a heb ei brofi i raddau helaeth yn y DU ac yn fyd-eang, rydym yn defnyddio dull iteraidd. Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr i'w helpu i ddeall eu rhwymedigaethau newydd a'r camau sydd eu hangen i gydymffurfio. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r diwydiant ehangach, cymdeithas sifil a rhanddeiliaid eraill i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau VSP orau rhag niwed a allai godi o wylio categorïau penodol o ddeunydd.

Byddwn yn cyflawni ein gweithgareddau rheoleiddio VSP mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion hynny y mae angen cymryd camau yn eu cylch. Byddwn yn adeiladu ar ein hanes cryf o ddiogelu cynulleidfaoedd rhag niwed ac ar yr un pryd yn cynnal rhyddid mynegiant.

Rydym yn cydnabod ei bod yn amhosib atal pob achos o niwed rhag digwydd, ond rydym yn disgwyl i ddarparwyr fynd ati'n rhagweithiol i nodi a lliniaru'r risg y bydd deunydd niweidiol yn ymddangos ar eu llwyfan. Mae'n rhaid i ddarparwyr VSP ystyried pa fesurau y mae'n ymarferol ac yn gymesur i'w cymryd, yn seiliedig ar ffactorau fel maint a sylfaen defnyddwyr y gwasanaeth a natur y cynnwys, a sicrhau bod y mesurau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod yn bwriadu i'r Drefn VSP yn y DU gael ei disodli gan y drefn niwed ar-lein arfaethedig drwy'r Mesur Diogelwch Ar-lein arfaethedig. Bydd cyflwyno'r Drefn VSP yn darparu sylfaen gadarn i gyfeirio a datblygu fframwaith rheoleiddio niwed ar-lein yn y dyfodol.

## Camau nesaf

Rydym yn gwahodd pob parti sydd â diddordeb, yn enwedig gwasanaethau a allai ddod o dan gwmpas y rheoleiddio, y diwydiant ehangach a chyrff y trydydd sector, i roi sylwadau ar ein canllawiau drafft.

Rydym wedi nodi nifer o gwestiynau yn y ddogfen hon yr ydym yn gwahodd sylwadau gan ymatebwyr arnynt. Y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yw 5pm ar 2 Ebrill 2021.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, ein bwriad yw cyhoeddi canllawiau terfynol yn ddiweddarach eleni. Bydd canllawiau ar ofynion hysbysebu penodol, yn ogystal â chynigion ar gyfer gweithio gyda'r ASA ar gyfer rheoleiddio hysbysebu ar VSPs, yn destun ymgynghoriad ar wahân.

Gall ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn yrru e-bost i Ofcom yn VSPRegulation@ofcom.org.uk os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am yr wybodaeth yn y ddogfen hon.